CC(3) AC 63

cwmni theatr arad goch

Stryd y Baddon, Aberystwyth, SY23 2NN Cymru/Wales, UK
ffôn: 01970.617998
ffacs:01970.611223
jeremy@aradgoch.org

Clerc y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Anfonaf sylwadau ar gyfer ymchwiliad y pwyllgor i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.

Cwmni Theatr Arad Goch yw un o'r ychydig sefydliadau celfyddydol annibynnol sydd yn parhau i weithredu drwy'r Gymraeg; fe fyddwn i ac Arwel Jones, Chadeirydd Bwrdd Rheoli Cwmni Theatr Arad Goch, yn croesawu'r cyfle i ymhelaethu ar y sylwadau yma mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Jeremy Turner
Cyfarwyddwr Artistig

Medi 23, 2010

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

CWMNI THEATR ARAD GOCH
Noddir gan:
Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin.
Elusen Gofrestredig 702506
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yng Nghymru 2375424
Rhif TAW/VAT No.549 6488 83

**Cwmni Theatr Arad Goch**

**Proffil**

Mae proffil a gwaith Cwmni Theatr Arad Goch wedi datblygu yn ystod yr 20 mlynedd mai'r cwmni wedi gweithredu. Sefydlwyd y cwmni fel cwmni teithiol ar raddfa fechan yn yr iaith Gymraeg. Rydym ni wedi datblygu ffrydiau gwaith newydd ac wedi ychwanegu at bortffolio'r cwmni gan ganfod busnes newydd drwy gydweithio a chyd-gynhyrchu.

Prif weithgareddau Cwmni Theatr Arad Goch yw:

i. gweithredu fel **cwmni theatr teithiol cenedlaethol i gynulleidfaoedd ifanc** yn Gymraeg a Saesneg;2 gynhyrchiad y flwyddyn yn teithio i ganolfannau, theatrau a feniws cymunedol.

ii. darparu gwasanaeth **Theatr mewn Addysg** (ThMA); 3 cynhyrchiad y flwyddyn i ysgolion yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro;

iii. **mentrau rhyngwladol** a chydweithio a'r ŵyl a gynhelir bob dwy flynedd **AGOR DRYSAU-OPENING DOORS Gŵyl Theatr Ryngwladol Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc;** ers dechrau yn 1996, mae AGOR DRYSAU-OPENING DOORS wedi croesawi artistiaid a threfnyddion gwyliau o dros 40 gwlad.

iv. **gweithgareddau cyfranogol** i bobl ifanc; mae'r cwmni yn ran o brosiect Cyrraedd y Nod ar hyn o bryd.

v. **Canolfan Arad Goch** – adeilad a chyfleusterau newydd y cwmni, a agorwyd yn 2008 ac sy'n cynnig cyfleusterau gwych i'r cwmni, i weithwyr proffesiynol eraill ac i'r gymuned;

vi. **gwaith prosiect** - mae'r cwmni wedi ceisio ac wedi llwyddo i sicrhau gwaith prosiect o amrywiaeth o ffynonellau;

vii. **hyfforddi** - mae'r cwmni'n cynnig cyfleodd hyfforddi i weithwyr proffesiynol eraill, pobl ifanc, athrawon a myfyrwyr; mae hefyd yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ei staff ei hun;

viii. **partneriaethau creadigol** gyda chyrff eraill yn y celfyddydau a thu hwnt

ix. **Galluogi ag annog gwaith newydd** gan artistiaid eraill.

**SYLWADAU I'R PWYLLGOR CYMUNEDAU A DIWYLLIANT**

Sylwadau cychwynnol

Yn gyntaf mae'n rhaid cydnabod fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu polisi 'hyd braich' wrth ariannu'r celfyddydau yng Nghymru drwy Gyngor Celfyddydau Cymru yn bennaf. Mae unrhyw ateb i gwestiwn am effeithiolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyn o beth yn gorfod rhoi sylw, felly, i effeithiolrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal ag effeithiolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.

Yn ail, mae'r weithred o brofi a gwerthfawrogi celfyddyd, yn ei hanfod, yn weithred oddrychol; felly, mae'r term 'profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf' yn annelwig iawn: gall gweithgaredd gelfyddydol fod 'o'r radd flaenaf' i un person ac yn llai gwerthfawr i'r person nesaf. Mae yna berygl, felly, wrth geisio categoreiddio profiad – ac mae'r duedd i fesur llwyddiant celfyddydol yn nhermau gweithgareddau confensiynol, mawr a chydnabyddedig yn gamarweiniol ac, weithiau, yn anadeiladol.

1. Ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ... profiadau diwyliannol o'r radd flaenaf... effaith ei fuddsoddiad.

Mae darpariaeth y celfyddydau ar draws Cymru yn anghyson. Mewn rhai ardaloedd mae'n rhaid i gynulleidfaoedd deithio yn bell i gael mynediad i gelfyddyd cyfoes.

Mae'n eironi trist fod y cyfnod ers datganoli grym o San Steffan i Gymru wedi gweld mwy o ganoli'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'r ddeng mlynedd ddiwethaf wedi gweld mwy o bwyslais ar ddatblygu sefydliadau 'cenedlaethol' celfyddydol tra, ar yr un pryd, cafwyd lleihad mewn gweithgareddau diwylliannol cymunedol – yn enwedig teithiau theatr cymunedol Cymraeg.

Yn ogystal, ymddengys fod mwy o waith theatr, er enghraifft, yn cael ei fewnforio i Gymru o Loegr nag erioed o'r blaen: erys y syniad, felly, fod angen 'dod â celfyddyd at y bobl' a 'diwyllio' pobl Cymru drwy ddangos iddynt beth sydd 'flaenaf' mewn diwylliannau eraill.

2. / 3. Canolfannau celfyddydol

Ar yr un pryd â datblygu mwy o sefydliadau cenedlaethol, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddatblygu canolfannau celfyddydol. Tra yn cydnabod llwyddiant a phwysigrwydd y canolfannau hynny mae'n rhaid nodi fod mawrygi'r gweithgareddau celfyddydol a ddigwydd yn y canolfannau wedi arwain at israddio pwysigrwydd gweithgareddau a ddigwydd yn gymunedol, yn lleol ac yn naturiol.

Mae canran helaeth o'r arian 'Arts Outside Cardiff' wedi cael ei sianelu drwy'r canolfannau celfyddydol. Mae'n destun siom fod nifer o'r canolfannau hynny yn defnyddio'r arian AOC i gynhyrchu gwaith gan artistiaid o Loegr yn hytrach na datblygu gwaith cyfoes cynhenid.

Mae datblygiad y canolfannau celfyddydol, felly, wedi amddifadu nifer o gynulleidfaoedd o'r cyfle i brofi diwylliant cyfoes yn eu cynefin tra, ar yr un pryd, yn colli cyfleoedd niferus i feithrin artistiaid o Gymru.

Yn ogystal, mae methiant nifer o'r canolfannau celfyddydol i adnabod anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg ac i farchnata gwaith Cymraeg yn effeithiol yn ychwanegu at anghysondeb ac annhegwch y ddarpariaeth.

4. Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru.

Yn ddiweddar gwnaethpwyd penderfyniad gan Cyngor Celfyddydau Cymru, fel rhan o'i adolygiad buddsoddi, i ddiddymu'i strategaeth theatr-mewn-addysg – a hynny heb ymgynghoriad penodol. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn cyn cwblhau'r gwaith o lunio strategaeth newydd. Gall hyn arwain at leihad pellach yn y cyfleodd a gaiff pobl ifanc i brofi celfyddyd cyfoes Cymreig.

5. Cyllideb

Byddai gostyngiad yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru yn andwyol.

Tra pery'r sefydliadau mawrion i lyncu lefel uchel o arian cyhoeddus, byddai gostyngiad yn peryglu dyfodol y sefydliadau a gweithgareddau canolig a bach eu maint – sef y sefydliadau a gweithgareddau hynny sydd yn cyrraedd pobl na fyddent, fel arall, yn cael mynediad i'r celfyddydau.

6. Awdurdodau Lleol

Mae ffyrdd y cynghorau sir o weithredu yn anghyson ac anghyfartal, gyda rhai ohonynt yn fwy blaengar eu hagwedd ac yn fwy hael eu cefnogaeth na'i gilydd tuag at y celfyddydau.

Enghraifft o anghysondebau'r cynghorau sir yw eu hagwedd tuag at waith theatr-mewn-addysg.

Yn 2002, gyda chefnogaeth y Gweinidog dros Ddiwylliant a cynnydd yn y gyllideb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru strategaeth newydd ar gyfer theatr-mewn-addysg er mwyn gwireddu'r bwriad o alluogi pob plentyn yng Nghymru i brofi theatr fyw a chyfoes ym mhob cyfnod allweddol o'i addysg. Galluogodd hyn i Cwmni Theatr Arad Goch, er enghraifft, greu cynnydd o 42% yn ei gynulleidfaoedd mewn ysgolion rhwng 2002 a 2008. Fodd bynnag, ni aethpwyd ati gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cysondeb yng nghefnogaeth y cynghorau sir i'r gwaith yma: ceir sefyllfa, felly, lle mae un sir yn cydnabod gwerth theatr-mewn-addysg drwy dalu amdano yn ganolog tra bod sir gyfagos yn mynnu mai'r ysgolion unigol ddylai dalu am y gwasanaeth. Gwaetha'r modd mae ffigyrau yn dangos fod plant y siroedd hynny nad ydynt yn gweithredu polisi canolog o brynu gwasanaeth theatr-mewn-addysg, wedi cael eu hamddifadu o'r cyfle i brofi theatr fyw, heriol a phwrpasol.

12.

Bymtheg neu hyd yn oed ddeng mlynedd yn ôl, byddai modd gweld amrywiaeth o theatr gan wyth neu naw o gwmnïau theatr o Gymru fyddai'n teithio yn gyson i leoliadau amrywiol eu maint ar draws Cymru. Erbyn hyn dim ond Theatr Bara Caws a Chwmni Theatr Arad Goch sydd ar ôl i gyflwyno gwaith yn gyson, yn y Gymraeg mewn lleoliadau cymunedol a chanolfannau cydnabyddedig ar draws Cymru ac oherwydd penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru fydd perfformiadau HiJinx yn dod i ben.

Mae pwyslais yng nghwestiynau'r ymgynghoriad yma ar leoliadau, a chanolfannau. Mae'n rhaid cwestiynu, felly, pam na chyfeirir yn benodol at gynhyrchwyr y celfyddydau yng Nghymru. Mae'r pwyslais ar ystadegau yn hytrach na perthnasedd ddiwylliannol, ar adnodd yn hytrach na gweithred, ar fewnforio celfyddyd 'da', ac ar y cysyniad o 'ragoriaeth celfyddydol' ar sail arferion a disgwyliadau gwlad neu wledydd eraill, yn parhau i rwystro gwir ddatblygiad diwylliant cynhenid dwyieithog Cymru.

Jeremy Turner
Cyfarwyddwr Artistig / Artistic Director
Cwmni Theatr Arad Goch
jeremy@aradgoch.org

23 Medi 2010

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

CWMNI THEATR ARAD GOCH
Noddir gan:
Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin.
Elusen Gofrestredig 702506
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yng Nghymru 2375424
Rhif TAW/VAT No.549 6488 83